***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 453 (Cy. 51) (C. 20)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 3) 2014

*Gwnaed - - - - 27 Chwefror 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 178(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 3) 2014.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 28 Chwefror 2014**

**2.** Mae'r darpariaethau a ganlyn ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn dod i rym ar 28 Chwefror 2014—

(a) adran 4(**2**) (mynychu cyfarfodydd o bell); a

(b) is-adran (5) o adran 155 (peidio â gwneud taliadau).

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

27 Chwefror 2014

(**1**) 2011 mccc 4.
(**2**) Diwygiwyd adran 4(4) gan adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (2013 dccc 4) a diddymwyd adran 4(8) gan Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Daeth y diwygiad a'r diddymiad i rym ar 30 Medi 2013.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 178(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Hwn yw'r trydydd gorchymyn cychwyn i'w wneud o dan y Mesur.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 28 Chwefror 2014 adrannau 4 a 155(5) o'r Mesur.

Mae adran 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodau awdurdod lleol yn mynychu cyfarfodydd yr awdurdod o bell.

Mae adran 155(5) yn gwneud darpariaeth ynghylch ad-dalu taliadau a wnaed i aelodau o awdurdodau perthnasol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru).

*Gweler* hefyd adran 178(1) (cychwyn) ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym ar 11 Mai 2011 (drannoeth y diwrnod y cymeradwywyd y Mesur gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor) ac adran 178(2) ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym ar 10 Gorffennaf 2011 (diwedd y cyfnod o 2 fis a ddechreuodd ar y diwrnod y cymeradwywyd y Mesur gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor).

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol y Mesur wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy Orchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011 (2011 Rhif 2011 (Cy.221)(C.74)) a Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2012 (2012 Rhif 1187 (Cy. 145) (C. 40)M), a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| **Y ddarpariaeth** | **Y dyddiad cychwyn** | **Rhif O.S.** |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 3 | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Adrannau 5 i 33 | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adrannau 56 a 57 | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adrannau 61 i 75 | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 78 | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adrannau 81 i 86 | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adrannau 87(1) a (2) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |

| **Y ddarpariaeth** | | **Y dyddiad cychwyn** | **Rhif O.S.** |
|---|---|---|---|
| Adrannau 88 i 99 | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 141 | | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Adran 142 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 143 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 144 | | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Adran 145 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 146 | | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Adran 147 | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 148 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 149 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 150 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 151 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 152 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |

| **Y ddarpariaeth** | | **Y dyddiad cychwyn** | **Rhif O.S.** |
|---|---|---|---|
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 153 | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 154 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 155(1) | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 155(2), (3) a (4) | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 156 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 157 | (yn rhannol) | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| | (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 158 | | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Adran 160 | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adrannau 161 i 171 | | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Adran 176(1) | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Adran 176(2) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Atodlen 2 | | 31 Awst 2011 | 2011 No. 2011 (Cy.221) (C.74) |
| Atodlen 3 | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |
| Atodlen 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | | 30 Ebrill 2012 | 2012 No. 1187 (Cy.145) (C.40) |